**The Purpose of this Role:-**
To ensure that the building is maintained to a high level of hygiene and cleanliness.

The successful candidate will be required to undertake cleaning tasks such as washing floors and walls, sweeping, vacuuming, dusting and emptying of litter bins.

**Expectation and Outcomes of this Role:-**
To ensure the maintenance of a hygienic, functional environment that facilitates the effective conduct of Council Business.

**Your responsibilities are to:-**

- To complete cleaning tasks of washing floors and walls, sweeping, empting litter bins, polishing and dusting.
- To undertake the cleaning of sanitary areas.
- To safely operate vacuum cleaners and polishing/scrubbing machines.
- To ensure that adequate stock of cleaning materials are maintained.
- To report all faults of cleaning equipment to the supervisor.
- To ensure the correct use of chemicals at all times.
- To work as a member of Monmouthshire's Facilities Unit at any site.
- To undertake any necessary training for the post.
- To observe any requirements outlined by the Monmouthshire Facilities Unit Quality Procedural Manual in relation to quality standards.
- To observe Health and Safety regulations, as laid down by the authority to ensure the safety of themselves and others.
- To abide by the principals and practice of equal opportunity as laid down in the Councils Equal Opportunities Policy

**Here's what we can provide you with:-**
- A great rate of pay
- Working Term Time only
- A Local Government Pension
- Training
- Teamwork

**Pwrpas y rôl:-**
Sicrhau y caiff yr adeilad ei gynnal i lefel uchel o hylendid a glanweithdra.

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus wneud tasgau glanhau megis golchi lloriau a waliau, ysgubo, defnyddio peiriant sugno llwch, tynnu llwch a gwagu biniau sbwriel

**Disgwyliadau a Chanlyniadau'r Rôl:-**

Sicrhau cynnal amgylchedd glân ac ymarferol sy'n hwyluso cynnal busnes y Cyngor mewn modd effeithlon.

**Bydd eich cyfrifoldebau yn cynnwys:-**
- Cwblhau tasgau glanhau golchi lloriau a waliau, ysgubo, gwagu biniau sbwriel, polisio a thynnu llwch.
- Glanhau ystafelloedd ymolchi.
- Gweithredu peiriannau sugno llwch a pholisio/sgrwbio yn ddiogel.
- Sicrhau y cedwir stoc ddigonol o ddeunyddiau glanhau.
- Hysbysu'r goruchwyliwr am bob nam ar offer glanhau.
- Sicrhau y caiff cemegolion eu defnyddio'n gywir bob amser.
- Gweithio fel aelod o Uned Cyfleusterau Sir Fynwy ar unrhyw safle.
- Dilyn unrhyw hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer y swydd.
- Cydymffurfio ag unrhyw ofynion a amlinellir gan Lawlyfr Gweithdrefn Ansawdd Uned Cyfleusterau Sir Fynwy yng nghyswllt safonau ansawdd.
- Cydymffurfio â rheoliadau Iechyd a Diogelwch, fel y'u nodir gan yr awdurdod i sicrhau eu diogelwch eu hunain ac eraill.
- Cydymffurfio gydag egwyddorion ac ymarfer cyfle cyfartal fel y'u nodir ym mholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor.

**Dyma'r hyn y mae modd i ni ddarparu i chi:-**
- Cyfradd wych o gyflog
- Gweithio yn ystod term ysgol yn unig
- Pensiwn Llywodraeth Leol
- Hyfforddiant
- Gwaith tîm

# Manyleb Person

**Sut fyddwn yn gwybod os mai chi yw'r person cywir ar gyfer y rôl hon? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus, byddwch wedi arddangos y canlynol:-**

- Profiad blaenorol o lanhau/hylendid.
- Y gallu i gyfathrebu'n effeithlon ac effeithiol.
- Hyblygrwydd a'r gallu i addasu er mwyn gweithio dan bwysau a chyflawni'r safonau gofynnol.
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm.
- Y gallu i sicrhau eich diogelwch eich hunan a phobl eraill bob amser.
- Parodrwydd i ddilyn holl weithdrefnau a pholisïau Uned Cyfleusterau Sir Fynwy a'u defnyddio'n briodol.
- Parodrwydd i ddilyn a rhoi gweithdrefnau iechyd a diogelwch ar waith i gydymffurfio gyda deddfwriaeth.
- Parodrwydd i gydymffurfio gyda pholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor yn cynnwys dilyn hyfforddiant priodol ar ymwybyddiaeth cydraddoldeb.
- Parodrwydd i ddilyn unrhyw hyfforddiant sy'n briodol i'r swydd fel a phryd sydd angen
- **Y Gymraeg yn Ddymunol**
  Gall fod angen i chi ddysgu neu wella eich sgiliau presennol drwy fynychu hyfforddiant Cymraeg i staff a gyllidir gan y Cyngor. Gweithredir hyn os yw'r angen yn codi am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer y swydd.

**Os ydych angen unrhyw wybodaeth bellach am y rôl hon, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:**
**Jan Baldwin  Ffôn: 01633 644109/07831 168 572**
**Anthony Berrington: 07812 477 709**

**Dyddiad Cau: 5pm 19/09/2024**

